



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynllun Cyfeillio Cyngor Sir y Fflint 2021 Yn cael ei ddarparu gan gydymffurfio â Rheoliadau COVID 19 fel rhan o Gynllun Chwarae Haf y Sir.

Cyfleoedd Chwarae Cynhwysol

***mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned lleol, Cyngor Sir y
Fflint a Llywodraeth Cymru***

**Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl
31 (CCUHP) yn nodi**

1. Bod Partïon yn cydnabod fod gan bob plentyn yr hawl i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gymryd rhan ddirwysr mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.
2. Bod Partïon yn parchu a hyrwyddo hawl y plentyn i gyfranogi'n llawn mewn bywyd diwylliannol ac artistig ac yn annog darpariaeth cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, artistig a hamdden.

**Yn Sir y Fflint, rydym yn ceisio darparu gwasanaeth yn seiliedig ar
hawliau – 'Hawl pob
Plentyn!'**

Crëwyd 'Cynllun Cyfeillio' Sir y Fflint, mewn partneriaeth, i gefnogi plant gydag anableddau a'u teuluoedd i alluogi mynediad at ddarpariaeth chwarae leol, yn benodol yn ystod darpariaeth cynllun chwarae haf y sir. Ar gyfer 2020, ariennir y gwasanaeth gan yr awdurdod lleol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a chynghorau tref a chymuned lleol.

Mae ein Rhaglen Cynllun Chwarae Haf yn para am bythefnos yn ystod yr Haf (19 Gorffennaf, 2021 – 27 Awst, 2021, dydd Llun i ddydd Gwener). Rydym yn cynnig sesiynau dwy awr mewn hyd ar draws y Sir. Datblygwyd y cynllun cyfeillio i ddarparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc 5-17 oed.

Rôl y 'Cyfaill' cynllun chwarae yw gweithio fel aelod o'r tîm ym mhob lleoliad gan gefnogi (lle bo'n briodol) plant gydag anghenion ychwanegol. Bydd y Cyfaill yn annog cyfranogiad yng ngweithgareddau cynllun chwarae ac yn gweithio'n agos gyda theulu pob plentyn.

Effaith

Rydym wedi bod yn monitro'r Cynllun Cyfeillio yn fanwl ers y 'cynllun peilot' yn 2005, mae rhai o'r sylwadau yr ydym wedi ei gael rieni a gofalmwr yn cynnwys:-

"Yn sicr, rydym bob amser yn hapus o weld T yn cael profiad cymdeithasol, mae'n un o'r pethau mae pob rhiant i blentyn gydag anghenion arbennig yn poeni amdano, o ran sut mae eich plentyn yn cael ei dderbyn gan ei gyfoedion"

"Mae wedi fy helpu i oroesi'r gwyliau haf, yr unig adeg mae M yn gallu profi chwarae heb fy mod yno, sydd yn grêt ar gyfer annibyniaeth M"

"Ydi, roedd yn golygu bod gennym amser i ni ein hunain tra yr oedd D mewn dwylo diogel"

"Gwahaniaeth mawr, roedd y gwyliau yn llawer llai o straen na'r blynyddoedd blaenorol"

"Mae wedi gwneud gwahaniaeth i F gan yr oedd wedi syrffedu yn ystod y gwyliau. Mae ganddi ffrindiau, ond gan fod angen cadw llygaid arni drwy'r amser ni allai ryngweithio gyda phlant eraill gymaint."

**Am ragor o fanylion am ein holl brosiectau, cysylltwch â Janet Roberts -
Swyddog Datblygu Chwarae Sir y Fflint
01352 704155 Janet.roberts2@flintshire.gov.uk**